LONDON WELSH SCHOOL
YSGOL GYMRAEG LLUNDAIN

Hanwell Community Centre, Westcott Crescent, Hanwell, W7 1PD
020 8575 0237
info@ysgolgymraegllundain.co.uk
sionedjones@ysgolgymraegllundain.co.uk

21.05.18

Newidiadau i'r gyfraith Diogelu Data / *Changes to Data Protection Law*

Annwyl Rieni / Warchodwyr,

Efallai eich bod yn ymwybodol, o'r 25ain o Fai, bod y rheolau ynghylch diogelu data yn newid. Bydd y 'General Data Protection Regulation' (GDPR) yn newid sut y gallwn ddefnyddio eich data personol a'i gadw'n ddiogel a bydd hefyd yn cryfhau eich hawliau dros eich data eich hun.

Diben hyn yw gwneud yn siŵr bod gwybodaeth sensitif neu breifat amdanoch chi eich hunain a'ch plant yn aros yn ddiogel. Er ei fod yn debyg i'r Ddeddf Diogelu data bresennol mewn sawl ffordd, mae ychydig o wahaniaethau, felly mae angen i ni wneud rhai newidiadau yn yr ysgol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio.

Un o'r newidiadau hyn yw ein bod wedi diweddaru ein hysbysiad preifatrwydd (Privacy Notice). Gallwch ddod o hyd i'r newidiadau ar wefan yr ysgol o dan "polisïau".

Fel rhan o'n gwaith i gydymffurfio â'r GDPR, rydym hefyd angen caniatâd (o'r newydd) i ddefnyddio ffotograffau neu fideos o'ch plentyn ar ein gwefan, arddangosfeydd mewnol neu ddeunyddiau eraill yr ysgol. Byddem yn gwerthfawrogi pe baech yn llenwi'r ffurflen sydd wedi'i hatodi a'i ddychwelyd i Swyddfa'r ysgol erbyn dydd Iau 24 Mai 2018. Bydd y wybodaeth ar y ffurflen hon yn cael ei ddefnyddio tra bod eich plentyn yn yr ysgol. Cewch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r ysgol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut y mae GDPR yn effeithio arnoch chi, neu sut mae ein hysgol yn paratoi, gallwch gysylltu â mi neu â Mr Jonathan Wright (Swyddog Diogelu Data'r ysgol) drwy swyddfa'r ysgol, sionedjones@ysgolgymraegllundain.co.uk neu jonathanwright@ysgolgymraegllundain.co.uk

Yn gywir,

Sioned Jones
Athrawes Arweiniol Dros Dro

Dear Parents / Carers,

You may be aware that from the 25th of May, the rules around data protection are changing. The 'General Data Protection Regulation' (GDPR) will change how we can use your personal data and keep it safe and will also strengthen your rights over your own data.

The point of this is to make sure sensitive or private information about yourselves and your children stays safe. Whilst it is similar to the current Data Protection Act in many ways, there are a few differences, so we need to make a few changes at the school in order to ensure we remain compliant.

One of these changes is that we have updated our privacy notice. You can find the changes on the school's website under "Policies".

As part of our work to comply with the GDPR, we are also re-seeking consent for using photographs or videos of your child on our website, internal displays or other school materials. We have enclosed this form, and would appreciate it if you filled this out and returned it to the school office by Thursday 24th May 2018. The information in this form will be used throughout your child's time at school. You may withdraw your consent at any time by contacting the school.

If you have any questions about how the GDPR affects you, or how our school is preparing, you can contact either myself or Mr Jonathan Wright (the school's Data Protection Officer) via the school office, sionedjones@ysgolgymraegllundain.co.uk or jonathanwright@ysgolgymraegllundain.co.uk.

Yours sincerely,

Sioned Jones
Acting Lead Teacher